Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Crynodeb gweithredol

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i hyrwyddo materion cydraddoldeb a hawliau dynol ac i ddileu gwahaniaethu ym Mhrydain.

Ym mis Rhagfyr 2007, comisiynwyd GfK NOP gan y Comisiwn yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru.

Amcanion yr ymchwil oedd:

- adeiladu ar fodiwl 'Attitudes to Discrimination' Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban a datblygu fersiwn newydd i Gymru.
- archwilio cymeriad agweddau gwahaniaethol yng Nghymru a pha mor gyffredin ydynt.
- archwilio pam fod gan bobl agweddau gwahaniaethol.
- archwilio dealltwriaeth o agweddau tuag at hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol.
- pennu mesuriad sylfaenol o agweddau tuag at wahaniaethu y gellir ei ailadrodd yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganlyniadau Arolwg Canfyddiadau Cymru.

Mae canlyniadau 'Arolwg Canfyddiadau Cymru' wedi cael eu cymharu â chanlyniadau Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban 2006 a'r 'Archwiliad Canfyddiadau' a wnaed ar ran y Comisiwn yng Nghymru a Lloegr yn 2007. Dylid ymdrin ag unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yng nghanlyniadau'r arolygon hyn yn ofalus oherwydd y gwahanol fethodoleg a ddefnyddiwyd. Cafodd arolwg canfyddiadau Cymru ei gynnal dros y ffôn tra bod y ddau arolwg arall wedi'u gwneud wyneb yn wyneb ac roedd pobl yn llenwi rhai adrannau eu hunain. Cafodd ymatebwyr eu dethol ar hap ar gyfer arolygon Cymru a Phrydain a gwarantwyd y byddai eu hymatebion yn gyfrinachol. Mantais bosibl oedd gan arolwg Cymru oedd ei fod dros y ffôn ac nad oedd yr ymatebydd wyneb yn wyneb â'r cyfwelydd a byddai hyn wedi cymell rhai i ymateb yn fwy gonest.

1. Dull yr Arolwg

Cynhaliwyd cyfweliadau Arolwg Canfyddiadau Cymru ar y ffôn rhwng 5 Chwefror a 7 Mawrth 2008. Pennwyd cwotâu fesul rhanbarth yng Nghymru, ac ystyriwyd rhyw law yn llaw â statws gwaith, oed a tharddiad ethnig (Cymreig/Prydeinig gwyn o gymharu â chefndiroedd eraill).

Roedd cyfweliadau yn para am 20 munud ar gyfartaledd a chynhaliwyd cyfanswm o 1,589 cyfweliad gydag oedolion 16 oed a hŷn yng Nghymru. Er mwyn dadansoddi pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ar wahân, cynhaliwyd cyfweliadau ychwanegol mewn ardaloedd gyda chyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig. Cynhaliwyd cyfanswm o 123 cyfweliad (neu 8 y cant o'r sampl cyfan) gyda phobl o leiafrifoedd ethnig.

Aethpwyd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad drwy gynnig gwasanaeth Typetalk[1] i bobl sydd â nam ar eu clyw (os oedd eu ffôn yn addas). Roedd pobl sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu'n Saesneg yn cael cynnig i rywun gyfieithu'r cyfweliad drwy ddefnyddio Llinell Iaith[2]. Dywedwyd wrth y cyfwelwyr i roi digon o amser i bobl oedd angen hynny e.e. pobl sydd â nam ar eu lleferydd, pobl ag anableddau dysgu oedd angen a/neu oedd wedi gofyn am amser ychwanegol.

Cafodd y data ei bwysoli yn ôl rhyw o fewn statws gwaith, oed, cefndir ethnig a rhanbarth etholiadol yng Nghymru er mwyn cynrychioli poblogaeth 16 oed a hŷn Cymru.

[1] Gweler http://www.rnid-typetalk.org.uk/
[2] Gweler http://www.languageline.co.uk/telephone-interpreting.aspx

2. Hawliau Dynol

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i archwilio barn ac asesu cefnogaeth i hawliau dynol yng Nghymru.

Cael eich trin gyda pharch, urddas a thegwch

Roedd consensws cyffredinol ymysg pobl Cymru y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus warantu eu bod yn trin pob unigolyn gyda pharch, urddas a thegwch. (dywedodd 83 y cant o oedolion Cymru y dylid gwarantu hyn bob amser gyda 17 y cant arall yn dweud y dylid gwarantu hyn y rhan fwyaf o'r amser neu beth o'r amser) (ffigur 1.1)

Ffigur 1.1 Yn eich barn chi, a ddylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru warantu eu bod yn trin pawb gyda pharch, urddas a thegwch?



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589)

Barn ar hawliau dynol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddynt yn cytuno gyda nifer o ddatganiadau gwahanol i fesur y gefnogaeth i hawliau dynol yng

Nghymru. Yn galonogol, roedd y mwyafrif o oedolion Cymru yn cefnogi hawliau dynol, gyda 93 y cant yn cytuno â'r datganiad, '*rwy'n cefnogi'r ffaith bod gennym ni gyfreithiau ym Mhrydain i amddiffyn hawliau dynol'.*

Fodd bynnag, roedd yna hefyd dystiolaeth yn awgrymu nad oedd pobl o reidrwydd yn gwybod beth roedden nhw'n ei gefnogi. Roedd tua wyth o bob deg yn cytuno â'r datganiad '*nid yw'r cyhoedd yn deall cyfreithiau hawliau dynol ar y cyfan*' (83 y cant), a hanner yn cytuno â'r datganiad '*nid yw hawliau dynol yn effeithio arna i yn bersonol*' (50 y cant) (ffigur 1.2).

Roedd barn yn fwy cymysg o ran achosion tybiedig o dorri cyfreithiau hawliau dynol. Roedd tua dwy ran o dair yn cytuno bod '*y llywodraeth yn poeni mwy am hawliau dynol grwpiau lleiafrifol na rhai pobl gyffredin*'. (64 y cant). Fodd bynnag, roedd ychydig llai na hanner yn cytuno *'mai'r unig bryd mae pobl yn siarad am eu hawliau dynol yw pan maen nhw'n ceisio cael rhywbeth nad oes ganddyn nhw hawl iddo'*. Roedd y canlyniadau'n dangos bod oedolion Cymru yn llawer llai tebygol o gytuno â'r datganiad diwethaf hwn nag oedolion Prydain yn gyffredinol (47 y cant o'i gymharu â 56 y cant o'r boblogaeth yn cytuno â'r datganiad hwn yn yr ymchwil Prydain gyfan).

Roedd dadansoddiadau yn ôl is-grwpiau yn dangos yn gyffredinol bod pobl ifanc, pobl sy'n gweithio, pobl mewn dosbarthiadau cymdeithasol uwch a phobl a oedd yn dweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl yn fwy tebygol o fod â safbwyntiau cadarnhaol a chefnogol i hawliau dynol ar y cyfan.

O gymharu â gwaith ymchwil blaenorol, roedd ffydd yn y cyfryngau a'r ffordd y maent yn ymdrin â straeon am hawliau dynol i'w weld yn uwch yng Nghymru nag yr oedd ledled Prydain. Yng Nghymru, roedd tri deg wyth y cant yn cytuno bod '*y cyfryngau'n adrodd ar straeon hawliau dynol yn deg*', tra bod llawer llai yn cytuno yn yr ymchwil Prydain gyfan, gyda dim ond dau ddeg tri y cant o oedolion yn cytuno â'r datganiad.

Ffigur 1.2 Cytuno â datganiadau am Hawliau Dynol



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589)

3. Cymdogaeth, cymuned a hunaniaeth

Holwyd ymatebwyr am eu safbwyntiau ynghylch hunaniaeth genedlaethol a pha mor gryf oedd eu hymdeimlad o berthyn. Er mwyn canfod barn pobl ar fewnfudo ac amrywiaeth ethnig Cymru, gofynnwyd i bobl pa mor bryderus y bydden nhw pe bai mwy o bobl o gefndiroedd arbennig yn symud i Gymru.

Hunaniaeth genedlaethol

Prin ei bod yn syndod mai'r tri ateb mwyaf cyffredin am hunaniaeth genedlaethol oedd Cymreig (58 y cant), Prydeinig (31 y cant) a Saesnig (12 y cant). Ni chrybwyllwyd unrhyw hunaniaeth genedlaethol arall gan fwy na 1 y cant o'r sampl.

Ymdeimlad o berthyn

Gofynnwyd i oedolion Cymru pa mor gryf oedden nhw'n teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal a'r wlad yr oedden nhw'n byw ynddi. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn: dywedodd pedwar o bob pump eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn yn eithaf cryf neu'n gryf iawn i'w cymdogaeth gyfagos (80 y cant) ac i'r ardal leol (79 y cant).

Roedd teimlad o hunaniaeth genedlaethol hyd yn oed yn fwy amlwg, gyda 84 y cant yn teimlo eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru ac 87 y cant yn dweud eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain (ffigur 1.3). Yn gyffredinol, roedd pobl hŷn, pobl wyn a Christnogion yn fwy tebygol o fynegi teimlad cryf o berthyn i'r lleoliadau a archwiliwyd.

Ffigur 1.3 Pa mor gryf ydych chi'n teimlo eich bod yn perthyn i…?



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589). Nid yw 'Ddim yn gwybod' a 'Gwrthodwyd' wedi'u dangos

87%

A yw oedolion Cymru yn poeni am wahanol grwpiau yn symud i Gymru?

84%

Y grwpiau y gofynnwyd amdanynt oedd:

- Pobl o Ddwyrain Ewrop (e.e. Gwlad Pwyl) **80%**
- Mwslimiaid
- Pobl Dduon ac Asiaidd
- Saeson

79%

Anghytunodd y mwyafrif o bobl y bydden nhw'n teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o'r grwpiau hyn yn symud i Gymru (Pum deg tri y cant o'r boblogaeth neu fwy). Fodd bynnag, roedd yn glir bod rhai pobl yn fwy pryderus am rai o'r grwpiau yn mewnfudo na grwpiau eraill.

Y ddau grŵp oedd yn pryderu pobl fwyaf oedd pobl o Ddwyrain Ewrop (32 y cant) a Mwslimiaid (30 y cant) - dau grŵp sydd wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar. Roedd dau ddeg pump y cant o bobl yn pryderu am y posibilrwydd o fwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn symud i fyw i Gymru. Roedd llawer llai o bobl yn pryderu am Saeson (16 y cant) yn dod i fyw i Gymru.

Ffigur 1.4 Faint ydych chi'n cytuno neu angytuno gyda "byddwn yn teimlo'n bryderus petai mwy o'r grwpiau canlynol yn symud i fyw i Gymru"?



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589).

Pwy fyddai'n pryderu petai grwpiau arbennig yn symud i Gymru?

Dangosodd dadansoddiadau yn ôl is-grwpiau bod y rhai oedd yn hŷn, mewn dosbarthiadau cymdeithasol is, gwyn, yn byw yn y De-orllewin a phobl a oedd wedi dweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddyn nhw eu hunain, yn fwy tebygol o fynegi pryder ynglŷn â mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop, Mwslimiaid a phobl Dduon ac Asiaidd yn symud i Gymru.

I’r gwrthwyneb, roedd proffil y bobl a oedd yn cytuno y bydden nhw’n bryderus ynglŷn â mwy o Saeson yn symud i Gymru yn wahanol; yn arbennig, doedd yna ddim tuedd o ran oed na dosbarth cymdeithasol. Roedden nhw’n tueddu i gynnwys pobl o’r Canolbarth a’r Gorllewin, pobl oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, pobl oedd yn ystyried eu hunain yn Gymry a phobl oedd yn dweud y byddai’n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddyn nhw eu hunain.

Pam y mae pobl yn pryderu am wahanol grwpiau yn symud i Gymru?

Roedd y rhesymau dros deimlo’n bryderus ynglŷn â mewnfudo yn amrywio yn dibynnu ar y grŵp dan sylw. Y themâu allweddol oedd pryderon am straen economaidd yn achos pobl o Ddwyrain Ewrop, yn arbennig y syniad eu bod yn ‘cymryd y swyddi i gyd’. Roedd diogelwch yn fater allweddol mewn perthynas â mewnfudwyr Mwslimaidd, yn ogystal â phryderon penodol am integreiddio. Ymhlith y rhai oedd yn pryderu am fwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn symud i Gymru, y rheswm a roddwyd fwyaf aml oedd ‘diffyg swyddi/maen nhw’n cymryd y swyddi i gyd’ a ‘gormod o fewnfudwyr/angen rheolau mwy llym’ (ond mae’n ymddangos bod pobl yn tybio y byddai pob newydd-ddyfodiad Duon ac Asiaidd yn fewnfudwr i’r DU, pan nad yw hynny’n wir o gwbl). Roedd y bobl a oedd yn bryderus ynglŷn â Saeson yn mewnfudo yn mynegi pryder am golli hunaniaeth a phryderon economaidd am dai.

4. Sefyllfaoedd bob dydd

Gofynnwyd tri chwestiwn senario i oedolion Cymru am sut y dylai pobl ymddwyn tuag at wahanol grwpiau o unigolion mewn sefyllfaoedd bob dydd a'u hagwedd at fenywod yn bwydo ar y fron.

A ddylai perchnogion busnesau gwely a brecwast allu gwrthod llety?

Pan ofynnwyd a ddylai perchnogion busnesau gwely a brecwast allu gwrthod llety i grwpiau arbennig o bobl, roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn. Roedd dros 70 y cant neu fwy o bobl Cymru yn cytuno na ddylai perchnogion busnesau gwely a brecwast allu gwahaniaethu yn erbyn aelodau o grŵp drwy wrthod llety iddynt (ffigur 1.5).

Ffigur 1.5 A ddylai perchennog busnes gwely a brecwast allu gwrthod llety?



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589)

Roedd mwy o oedolion yn cytuno y byddai'n dderbyniol gwrthod llety i rywun 21 mlwydd oed neu iau nag unrhyw grŵp arall a grybwyllwyd yn y cwestiwn (24 y cant o gymharu ag 17 y cant neu lai am bob grŵp arall y gofynnwyd amdano).

Wrth gymharu canlyniadau Cymru gyda rhai Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban, roedd y safbwyntiau'n amrywio'n fawr ynglŷn ag a ddylai perchennog busnes gwely a brecwast allu gwrthod llety i gwpl hoyw neu lesbiaidd. Dim ond 17 y cant o bobl Cymru oedd yn credu y byddai'n dderbyniol i'w gwrthod o gymharu â thua hanner oedolion yr Alban[3]. Roedd barn y Cymry a'r Albanwyr yn debyg yn gyffredinol ar y pum opsiwn senario arall.

Pwy oedd yn cefnogi'r hawl i wrthod?

Nid oedd yna unrhyw batrymau cyson ymysg y gwahanol is-grwpiau yn ymwneud â'r hawl i wrthod llety mewn busnes gwely a brecwast. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hŷn dros 65 oed yn fwy tebygol na phobl iau o ddweud y dylai perchnogion busnesau gwely a brecwast gael yr hawl i wrthod llety i gwpl hoyw neu lesbiaidd neu rywun o gefndir ethnig neu hil wahanol.

Yn ôl y disgwyl, roedd pobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddyn nhw eu hunain yn fwy tebygol na phobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl o gefnogi'r hawl i wrthod llety i gwpl hoyw neu lesbiaidd, rhywun o gefndir ethnig neu hil wahanol a rhywun â chrefydd wahanol iddyn nhw.

Pwy sy'n addas i fod yn athro mewn ysgol gynradd?

Pan ofynnwyd pa mor addas oedd gwahanol fathau o bobl i weithio fel athrawon ysgol gynradd, roedd y canlyniadau'n amrywio yn dibynnu ar y grŵp dan sylw. Er enghraifft, roedd agweddau tuag at ddynion hoyw a menywod lesbiaidd a phobl Dduon ac Asiaidd yn fwy cadarnhaol, gyda thri chwarter neu fwy o'r boblogaeth yn cytuno y byddent yn addas iawn neu'n eithaf addas i fod yn athro ysgol gynradd.

I'r gwrthwyneb, dywedwyd mai Sipsiwn a Theithwyr a phobl oedd yn dioddef o iselder o dro i dro oedd yn lleiaf addas ar gyfer y swydd. Roedd bron i hanner poblogaeth Cymru'n dweud y byddai'r grwpiau hyn yn eithaf anaddas neu'n anaddas iawn – 47 y cant yn credu fod Sipsiwn

[3] Dylid ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng Arolygon Cymru a'r Alban yn ofalus. Gweler y cyflwyniad i'r crynodeb gweithredol.

a Theithwyr yn anaddas a 46 y cant yn credu fod pobl oedd yn dioddef o iselder yn anaddas i'r swydd.

Roedd lleiafrif arwyddocaol (40 y cant) yn credu fod rhywun 70 oed neu'n hŷn yn eithaf anaddas neu'n anaddas iawn ar gyfer y swydd o fod yn athro ysgol gynradd. Dywedodd traean (33 y cant) yr un peth am rywun oedd yn drawsryweddol (ffigur 1.6).

Pwy sy'n credu fod rhai grwpiau yn llai addas ar gyfer bod yn athro mewn ysgol gynradd?

Roedd un duedd glir yn amlwg wrth edrych ar wahaniaethau fesul is-grŵp. Roedd pobl o ddosbarth cymdeithasol DE, ac yn gysylltiedig â hynny, pobl a wnaeth adael addysg yn 16 mlwydd oed neu iau yn fwy tebygol na phoblogaeth Cymru yn gyffredinol o ddweud nad oedd pobl o'r holl grwpiau a archwiliwyd (ac eithrio dynion a menywod) yn addas i weithio fel athrawon ysgol gynradd.

Yn ddiddorol, yn achos iselder, y bobl iau a'r bobl hŷn oedd ag agweddau gwahaniaethol wrth ymdrin â'r cwestiwn hwn. Roedd o leiaf hanner y bobl rhwng 16 a 34 oed (51 y cant) a phobl dros 65 oed (55 y cant) yn credu bod pobl sy'n dioddef o iselder o bryd i'w gilydd yn anaddas i'r swydd. Roedd hyn yn cymharu â 39 y cant o bobl rhwng 35 a 54 oed a 42 y cant o bobl rhwng 55 a 64 oed. Dyma'r unig grŵp o bobl y gofynnwyd amdanynt lle'r oedd y grŵp oed ieuengaf (16-34) wedi mynegi agweddau mwy gwahaniaethol na rhai o'r grwpiau oedran hŷn, a gall hyn ddangos diffyg dealltwriaeth neu brofiad o iselder ymysg eu cyfoedion.

Ffigur 1.6 Pwy sy'n addas i fod yn athro ysgol gynradd?



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589)

Ymateb pobl i fenywod yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus

Gyda senario oedd yn ymwneud â menyw yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus, roedd bron i dri chwarter (72 y cant) o oedolion yng Nghymru yn dweud y bydden nhw'n teimlo'n gyffyrddus yn y sefyllfa hon a dim ond 16 y cant ddywedodd y bydden nhw'n teimlo'n annifyr (ffigur 1.7). Yn ddiddorol, roedd y gyfran o oedolion yn yr Alban a oedd yn teimlo'n gyffyrddus yn gweld menyw yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus yn llawer llai (57 y cant).[4]

Pwy sy'n teimlo'n gyffyrddus yn gweld menyw yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus?

Roedd menywod, pobl rhwng 35 a 54 mlwydd oed, pobl o ddosbarth cymdeithasol AB a phobl o'r mwyafrif gwyn Cymreig neu Brydeinig yn

[4] Dylid ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng Arolygon Cymru a'r Alban yn ofalus. Gweler y cyflwyniad i'r crynodeb gweithredol. Yn Arolwg yr Alban roedd pobl yn cwblhau'r cwestiwn hwn eu hunain. Yn Arolwg Cymru roedd yr ymatebydd yn rhoi ei ateb yn uniongyrchol i'r sawl oedd yn ei gyfweld.

fwy tebygol o deimlo'n gyffyrddus yn gweld menyw yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus.

Ffigur 1.7 Cyffyrddus neu anghyffyrddus yn gweld menyw yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus



Sail: Pob ymatebydd (amhwysol: 1,589, pwysol: 1,589)

5. Y gweithle

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried cyfres o ddatganiadau agwedd ynglŷn â'r gweithle a oedd yn cwmpasu rhyw ac oedran yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Materion rhyw yn y gweithle

Tra bod pobl yn cytuno'n unfrydol ar rai materion, roedd eu hymatebion yn fwy amrywiol ar faterion eraill. Roedd yna gefnogaeth i drefniadau gofal plant mwy teg rhwng y ddau ryw, gyda naw deg y cant o oedolion Cymru yn cytuno y dylai tadau allu cymryd amser o'r gwaith i ofalu am blant sâl yn yr un modd â mamau.

Fodd bynnag, roedd bron i hanner (49 y cant) yn anghytuno bod *'cael eich trin yn annheg yn y gweithle oherwydd eich bod yn fenyw yn perthyn i'r oes o'r blaen'*. Roedd dadansoddiadau oedran yn dangos bod pobl rhwng 16 a 34 oed yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn nag oedolion hŷn: 49 y cant yn cytuno o'i gymharu â 41 y cant neu lai mewn grwpiau oedran eraill. Ond, *menywod* iau oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth: roedd 47 y cant o fenywod rhwng 16 a 34 oed yn cytuno fod cael eich trin yn annheg ar sail rhyw yn rhywbeth yn perthyn i'r oes o'r blaen, o'i gymharu â 36 y cant i fenywod rhwng 35 a 54 oed a 30 y cant o'r rhai rhwng 55 a 64 oed.

Materion oedran yn y gweithle

O ran oedran, roedd y mwyafrif llethol o oedolion Cymru'n cytuno y dylai pobl allu gweithio ar ôl yr oedran ymddeol swyddogol os ydynt am wneud hynny (cytunodd 94 y cant â hyn). Ond, mae'n ddiddorol nodi, fel y nodwyd uchod, bod 40 y cant o bobl yn teimlo fod pobl 70 oed neu'n hŷn yn anaddas i weithio fel athrawon mewn ysgolion cynradd.

Roedd safbwyntiau'n fwy cymysg o ran pobl iau ac isafswm cyflog llai i bobl 21 mlwydd oed ac iau. Credai dros hanner fod hyn yn annheg (55 y cant), ond roedd traean yn cefnogi'r trefniant hwn (35 y cant). Yn arbennig, roedd oedolion AB yn fwy tebygol o feddwl bod y trefniadau presennol yn deg na phobl o ddosbarthiadau cymdeithasol eraill (42 y cant o ddosbarth AB o'i gymharu 33 y cant o ddosbarthiadau cymdeithasol eraill).

Y Gymraeg a recriwtio yn y gweithle

Roedd oedolion Cymru wedi'u rhannu'n gyfartal o ran eu barn am y Gymraeg a recriwtio ar gyfer swyddi. Roedd tua phedwar ym mhob deg (42 y cant) yn cytuno y *'dylai cyflogwyr ffafrio pobl sy'n siarad Cymraeg a Saesneg wrth lenwi swyddi'* , a chanran tebyg (43 y cant) yn anghytuno â'r datganiad *'mae gan bobl sy'n siarad Cymraeg fantais annheg wrth geisio am swyddi, yn enwedig yn y llywodraeth, cynghorau lleol ac ati'* (ffigur 1.8). Nid oedd yn syndod bod lefelau cydsyniad yn dibynnu ar p'run a oedd yr unigolyn yn siarad Cymraeg yn y cartref ai peidio a'i hunaniaeth (h.y. Cymreig, Prydeinig, arall), gyda siaradwyr Cymraeg neu bobl oedd yn ystyried eu hunain yn Gymry yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad cyntaf ac yn llai tebygol o gytuno â'r ail.

Ffigur 1.8 Agweddau tuag at gwahanol faterion yn y gweithle



Sail: Pob ymatebydd (1,589 amhwysol; 1,589 pwysol)

Gweithredu cadarnhaol yn y gweithle

Roedd gweithredu'n gadarnhaol ar ffurf cymwysterau a hyfforddiant ychwanegol i fenywod a phobl Dduon neu Asiaidd nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi uwch yn cael ei ystyried yn deg

gan fwyafrif bach o oedolion Cymru. Roedd 55 y cant yn credu hynny yn achos menywod a 54 y cant yn achos unigolion Duon ac Asiaidd. Fodd bynnag, roedd cyfrannau sylweddol o'r farn bod ymyriadau o'r fath yn annheg (42 y cant yn achos menywod a 43 y cant yn achos unigolion Duon ac Asiaidd).

Roedd y rhai a oedd yn llai tebygol o gefnogi camau gweithredu cadarnhaol yn fwy tebygol o berthyn i ddosbarthiadau cymdeithasol uwch, yn gweithio ac wedi gadael addysg yn 19 oed neu'n hŷn – hynny yw, y math o unigolion a fyddai'n cefnogi mesurau gwrthwahaniaethol fel arfer.

Roedd y canlyniadau hyn yn debyg i rai Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban 2006, ac yn dangos fod yna waith i'w wneud eto cyn bod hyd yn oed drigolion mwyaf rhyddfrydol Cymru yn hollol argyhoeddedig ynglŷn â'r fath ffyrdd o ddarparu cyfle cyfartal yn y gweithle.

6. Plant a Phobl Ifanc

Gofynnwyd i oedolion Cymru ystyried nifer o ddatganiadau agwedd yn ymwneud â chanfyddiadau o blant a phobl ifanc ac agwedd pobl tuag atynt.

Ymddygiad ac agwedd pobl ifanc

Roedd yna dystiolaeth o ganfyddiadau eithaf negyddol o bobl ifanc yng Nghymru. Roedd oddeutu tri chwarter oedolion Cymru yn cytuno bod *'ymddygiad pobl ifanc yn waeth nag yr oedd yn y gorffennol'* a bod *'gan bobl ifanc ddiffyg parch tuag at bobl hŷn'* (ffigur 1.9).

Yn ddiddorol, doedd gan oedran ddim effaith ar lefelau cydsyniad, gyda'r grŵp oed ieuengaf yr un mor debygol o gytuno â'r datganiadau hyn â'r grwpiau oedran hynaf.

Parch at bobl ifanc a'u safbwyntiau

Gyda'r datganiad cyferbyniol, 'mae gan bobl hŷn ddiffyg parch tuag at bobl ifanc', dywedodd 54 y cant eu bod yn cytuno â hyn. Roedd hyn yn arwyddocaol is na'r lefelau cydsyniad gyda'r ddau ddatganiad arall a grybwyllwyd.

Er bod safbwyntiau negyddol tuag at blant a phobl ifanc yn gyffredin, roedd y mwyafrif o oedolion yng Nghymru yn cytuno 'nad yw oedolion yn gwrando digon ar farn pobl ifanc'. Efallai fod hyn yn dangos bod pobl yn cydnabod cysylltiad rhwng pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'r effaith ar eu hymddygiad (67 y cant yn cytuno).

Yn yr achos hwn, roedd oedran yn dylanwadu'n fawr ar y canlyniadau. Roedd pobl hŷn yn llai tebygol o gytuno na grwpiau oedran iau nad oedd oedolion yn gwrando digon ar farn pobl ifanc (73 y cant o bobl rhwng 16 a 34 oed o'i gymharu â 61 y cant o bobl 65 oed a hŷn).

Ffigur 1.9 Agweddau tuag at bobl ifanc



Sail: Pob ymatebydd (1,589 amhwysol; 1,589 pwysol)

7. Rhwydweithiau cymdeithasol a pherthynas ag eraill

Gofynnwyd cwestiynau i weld pa rwydweithiau cymdeithasol sydd gan bobl Cymru a sut bydden nhw'n teimlo petai perthynas agos yn priodi neu'n cael perthynas hirdymor â rhywun o grŵp arbennig.

Grwpiau teuluoedd a ffrindiau pobl

Roedd yn ymddangos bod cymdeithas Cymru wedi'i hintegreiddio'n dda gydag oddeutu tri chwarter y boblogaeth yn dweud eu bod yn adnabod rhywun:

- o grefydd wahanol (80 y cant)
- o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol (77 y cant)
- 20 mlynedd neu fwy yn iau neu'n hŷn na nhw (95 y cant) (Yn galonogol, dywedodd 75 y cant eu bod yn ffrindiau gyda rhywun 20 mlynedd neu fwy yn iau neu'n hŷn na nhw)
- anabl (74 y cant)
- hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol (74 y cant)

Pa fath o bobl sy'n fwy tebygol o fod â grwpiau cymdeithasol amrywiol?

Roedd y bobl â'r rhwydweithiau mwyaf amrywiol yn dueddol o fod yn bobl iau, pobl o gartrefi AB, pobl a oedd wedi gadael addysg yn 19 mlwydd oed neu'n hŷn, ac, yn ôl y disgwyl efallai, pobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda llawer o bobl wahanol iddyn nhw eu hunain.

Perthynas hirdymor

Pan ofynnwyd sut y bydden nhw'n teimlo pe bai perthynas agos yn priodi neu'n cychwyn perthynas hirdymor gyda rhywun o grŵp lleiafrifol arbennig, roedd y canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y grŵp dan sylw.

Roedd gan gyfran eithaf bach o'r boblogaeth (11 y cant neu lai) agweddau negyddol tuag at bobl oedd yn dilyn crefydd wahanol, rhywun o gefndir ethnig gwahanol neu rywun oedd ag anabledd dysgu.

Yn achos perthynas agos yn cael perthynas hirdymor gyda rhywun o'r un rhyw â nhw eu hunain, roedd agweddau hefyd yn eithaf cadarnhaol gyda mwy o bobl yn dweud y bydden nhw'n hapus yn hytrach nag anhapus am hyn: dywedodd 53 y cant y bydden nhw'n hapus a dywedodd chwarter yr oedolion (26 y cant) y bydden nhw'n anhapus.

Roedd safbwyntiau tuag at geiswyr lloches, Sipsiwn a Theithwyr a phobl gyda chyflwr iechyd meddwl yn fwy cymysg. Dywedodd cyfrannau tebyg y bydden nhw'n hapus ac anhapus â'r sefyllfa. Er enghraifft:

- ceiswyr lloches – dywedodd 37 y cant y bydden nhw'n anhapus o gymharu â 40 y cant oedd yn hapus
- Sipsi/Teithiwr - 38 y cant o gymharu â 42 y cant
- rhywun â chyflwr iechyd meddwl - 37 y cant o gymharu â 38 y cant.

Roedd agweddau gwahaniaethol yn fwy amlwg hyd yn oed tuag at bobl drawsryweddol: roedd oedolion Cymru yn fwy tebygol o fod yn anhapus na hapus pan ofynnwyd iddynt ddychmygu eu hymateb pe bai perthynas agos yn cychwyn perthynas hirdymor gyda rhywun o'r grŵp hwn (dywedodd 44 y cant y bydden nhw'n anhapus o gymharu â 33 y cant a fyddai'n hapus).

Ffigur 1.10 Yn gyffredinol, pa mor hapus neu anhapus fyddech chi petai perthynas agos yn priodi neu'n cael perthynas hirdymor gyda rhywun o'r grwpiau canlynol?



Sail: Pob ymatebydd (1,589 amhwysol; 1,589 pwysol).

Sut mae safbwyntiau ar berthynas yn amrywio mewn grwpiau cymdeithasol gwahanol?

Yn gyffredinol, pobl hŷn, pobl o ddosbarth cymdeithasol DE, Cristnogion a phobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddyn nhw eu hunain oedd fwyaf tebygol o fod yn anhapus am berthynas neu berthynas agos yn priodi rhywun o un o'r grwpiau hyn.

Sut mae safbwyntiau ar berthynas yn amrywio ymhlith pobl sy'n adnabod rhywun o grwpiau arbennig?

Lle'r oedd yn bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol, roedd pobl a oedd yn adnabod rhywun o un o'r grwpiau dan sylw yn llai tebygol o fod ag agwedd wahaniaethol tuag at rywun yn eu teulu yn meithrin perthynas gydag unigolyn o'r grŵp hwnnw. Felly, roedd pobl a oedd yn adnabod rhywun o gefndiroedd ethnig neu grefyddol gwahanol neu'n

adnabod rhywun a oedd yn hoyw, lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n anhapus pe bai perthynas agos yn priodi rhywun o'r grwpiau hyn na rhywun nad oedd yn adnabod rhywun o'r grwpiau hyn. Mae hyn yn pwysleisio manteision cadarnhaol rhwydweithiau cymdeithasol amrywiol.

8. Trais Domestig

Roedd dau gwestiwn wedi'i cynnwys yn yr holiadur er mwyn rhoi syniad cychwynnol o safbwyntiau oedolion Cymru ar drais domestig a sut y dylid ymdrin ag ef. Gan fod hwn yn bwnc mor sensitif, bydd angen rhagor o waith ymchwil i ddeall barn pobl yn llawnach.

Diffiniwyd trais domestig fel a ganlyn:

"Mae trais domestig yn digwydd pan mae aelod o'r teulu, partner neu gynbartner yn neu'n ceisio bod yn dreisgar tuag at rywun arall yn gorfforol neu'n ceisio ei ddominyddu mewn ffordd arall. Gall hyn gynnwys taro neu fygwth taro rhywun arall."

Trais a bwlio partneriaid

Roedd y mwyafrif llethol o oedolion Cymru yn cytuno nad yw bwlio neu daro partner yn iawn ar unrhyw gyfrif (97 y cant o boblogaeth Cymru yn bendant nad oedd hyn yn iawn). Roedd natur debyg yr ymateb i'r cwestiwn hwn ym mhob is-grŵp demograffig yn cadarnhau ei fod yn annerbyniol iawn yn gymdeithasol i anghytuno â'r datganiad hwn (ffigur 1.11).

O ran sut i ymdrin orau â thrais domestig, anghytunodd dwy ran o dair (67 y cant) o boblogaeth Cymru mai *'ymdrin â thrais domestig fel mater preifat sydd orau yn hytrach na galw'r heddlu'*. Fodd bynnag, roedd lleiafrif arwyddocaol (19 y cant) yn cytuno mai ymdrin ag ef fel mater preifat oedd orau. Roedd y bobl a oedd yn cytuno yn fwy tebygol o fod yn ddynion, oedolion hŷn a phobl o grwpiau ethnig heb fod yn wyn.

Ffigur 1.11 Ydych chi'n credu ei bod hi'n well ymdrin â thrais domestig fel mater preifat neu gan yr heddlu?



Sail: Pob ymatebydd (1,589 amhwysol; 1,589 pwysol). 'Nid yw 'Ddim yn gwybod' a 'Gwrthodwyd' wedi'u dangos (<o.5%)

9. Casgliad

Roedd canlyniadau cyffredinol yr ymchwil yn gymharol gadarnhaol. Ar y cyfan, roedd pobl Cymru ymdeimlad cryf o berthyn ac yn gyffyrddus i raddau helaeth gyda phobl o gefndiroedd gwahanol. Ond mae'r ymchwil hefyd yn amlygu rhai canfyddiadau negyddol difrifol a rhagfarn sylweddol tuag at rai pobl a chymunedau.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad llawn yr ymchwil yn www.equalityhumanrights.com/

Ynglŷn â'r arolwg agweddau

Comisiynwyd GfK NOP gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil ar agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y gwaith ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu mewn perthynas â rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion yn ymwneud ag oedran, crefydd a chred yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn ffurfio mesuriad llinell sylfaen o agweddau y gellid ei ailadrodd o dro i dro yn y dyfodol.

1,589 o ymatebwyr oedd maint y sampl cyffredinol. Cyflawnwyd yr arolwg dros y ffôn. Roedd pob ymatebydd yn cael y dewis i gwblhau'r arolwg yn y Gymraeg. Aethpwyd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad drwy gynnig gwasanaeth Typetalk i bobl â nam ar eu clyw. Roedd pobl sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu'n Saesneg yn cael cynnig rhywun i gyfieithu'r cyfweliad drwy ddefnyddio Llinell Iaith.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad yn cyfuno detholiad o rifau ffôn wedi eu deialu ar hap (RDD) gan ddefnyddio cwôtau i reoli proffil pobl oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Pennwyd cwôtau yn ôl rhanbarthau Cymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw wedi'i gysylltu â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru ar sail y ffactorau hyn. Cynhaliwyd cyfweliadau ychwanegol mewn ardaloedd â chyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain

Mae canlyniadau Arolwg Agweddau Cymdeithasol yr Alban 2006 ac archwiliad canfyddiadau GfK NOP wedi cael eu cymharu. Dylid nodi mai dim ond cymhariaethau eang y gellir eu gwneud gan i wahanol fethodoleg gael eu defnyddio yn y ddau arolwg. Felly, rhaid ymdrin ag unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau yn y canfyddiadau hyn o'r arolygon a chanlyniadau arolwg Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru fel rhai dangosol yn hytrach nag absoliwt.